ystadegau ar gyfer cymru
statistics for wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**12 Awst 2015**

# Diwygio Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014
# Nodyn ar newidiadau allweddol

Mae hyn i hysbysu defnyddwyr bod Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2014 wedi cael ei ddiwygio ar ôl sylwi ar wall yn y data craidd a ddefnyddiwyd i baratoi'r mynegai. Mae'r nodyn hwn yn amlinellu'r newidiadau allweddol y gallai defnyddwyr fod eisiau gwybod amdanynt.

## Manylion y gwall

Sylwodd yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) ar wall yn y data dangosydd incwm yr oedd wedi'i ddarparu ar gyfer parth incwm MALIC, lle cafodd rhywfaint o ddata am gredydau treth ei hepgor yn ddamweiniol.

## Effaith y gwall

### *Y data dan sylw*

Mae hyn yn effeithio ar y data dangosydd incwm sylfaenol ar gyfer 2014 yn ôl Ardal Cynnyrch Ehangach Is (ACEHI), ynghyd â data ar gyfer ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf. Mae DWP yn parhau i ymchwilio i effaith bosibl ar ddata dangosydd incwm 2012 a 2013 a byddwn yn diwygio'r data hŷn lle bo gofyn maes o law.

Mae data dangosydd incwm 2014 yn cyfrannu at y safleoedd parth incwm, a safleoedd MALIC cyffredinol ar gyfer 2014. Rydym wedi dadansoddi maint y gwall ac mae crynodeb o'r canlyniadau i'w weld isod.

### *Allbynnau*

Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar allbynnau ystadegol, gan gynnwys yr Adroddiad Cryno, y Crynodeb Gweithredol data StatsCymru a gwefan ryngweithiol MALIC.

### *Crynodeb o'r Newidiadau*

*MALIC – Mynegai Cyffredinol*

Mae'r effaith ar y sgoriau MALIC cyffredinol fel a ganlyn:

- O'r 1909 o ACEHI, mae gan y mwyafrif ohonynt (94%) safle gwahanol
- Serch hynny, newid bach sydd i'r rhan fwyaf ohonynt:
    - bydd 58% ohonynt yn aros o fewn 5 lle (o 1909)
    - bydd 80% ohonynt yn aros o fewn 10 lle
    - bydd 95% ohonynt yn aros o fewn 20 lle
- Dim ond nifer gymharol fechan o'r ACEHI sy'n symud rhwng y degraddau MALIC (llai na 5%)
- Nid oes unrhyw ACEHI yn symud mwy nag un degradd

Mae tablau 1 a 2 yn dangos y gwahaniaeth yn y 10 o ACEHI mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar sail y safleoedd gwreiddiol a diwygiedig ar gyfer MALIC 2014.

**Tabl 1 Graddfeydd ACEHI mwyaf difreintiedig MALIC 2014 – Diwygiedig Awst 2015**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Graddfa MALIC 2011 | Graddfa MALIC 2014 |
|---|---|---|---|---|
| W01001421 | Caerffili | St. James 3 | 2 | 1 |
| W01000240 | Sir Ddinbych | Gorllewin y Rhyl 2 | 1 | 2 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 9 | 3 |
| W01001874 | Caerdydd | Y Sblot 6 | 36 | 4 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Tylorstown 1 | 10 | 5 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 8 | 6 |
| W01001428 | Caerffili | Twyn Carno 1 | 3 | 7 |
| W01001303 | Merthyr Tudful | Ynysowen 2 | 17 | 8 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 15 | 9 |
| W01001662 | Casnewydd | Pillgwenlli 4 | 27 | 10 |

**Tabl 2 Graddfeydd ACEHI mwyaf difreintiedig MALIC 2014 – Cyhoeddwyd Tachwedd 2014**

| ACEHI | Awdurdod Lleol | Enw'r ACEHI | Graddfa MALIC 2011 | Graddfa MALIC 2014 |
|---|---|---|---|---|
| W01001421 | Caerffili | St. James 3 | 2 | 1 |
| W01000240 | Sir Ddinbych | Gorllewin y Rhyl 2 | 1 | 2 |
| W01000413 | Wrecsam | Queensway 1 | 9 | 3 |
| W01001274 | Rhondda Cynon Taf | Tylorstown 1 | 10 | 4 |
| W01000991 | Pen-y-bont ar Ogwr | Caerau (Pen-y-bont ar Ogwr) 1 | 8 | 5 |
| W01001428 | Caerffili | Twyn Carno 1 | 3 | 6 |
| W01001222 | Rhondda Cynon Taf | Pen-y-waun 2 | 15 | 7 |
| W01001303 | Merthyr Tudful | Ynysowen 2 | 17 | 8 |
| W01001874 | Caerdydd | Y Sblot 6 | 36 | 9 |
| W01000239 | Sir Ddinbych | Gorllewin y Rhyl 1 | 7 | 10 |

Mae modd gweld effaith y diwygiad drwy gymharu Tabl 1 a Thabl 2, sef:

- Nid yw'r ‘3 uchaf’ wedi newid
- Mae y Sblot 6 wedi symud i 4$^{ydd}$ safle yn y mwyaf difreintiedig
- Nid yw Gorllewin y Rhyl 1 yn y ‘10 uchaf’ erbyn hyn, gyda Pillgwenlli 4 yn cymryd ei lle.
- Mae'r ACEHI sy'n weddill wedi newid safleoedd

Mae tabl 3 yn dangos effaith y diwygiad ar yr ACEHI yn ôl grŵp amddifadedd. Ar y cyfan, mae'r rhan fwyaf o ACEHI yn yr un grŵp ag yr oeddent cyn y diwygiad. Nid oes unrhyw ACEHI wedi symud mwy na un grŵp o ganlyniad i'r diwygiad.

**Tabl 3 Newidiadau i raddfeydd ACEHI MALIC 2014 LSOA yn ôl grŵp, Gwreiddiol a Diwygiedig**

| | | **MALIC 2014 Diwygiedig** | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) |
| **MALIC 2014 Gwreiddiol** | 10% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 1-191) | **190** | 1 | 0 | 0 | 0 | 191 |
| | 10-20% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 192-382) | 1 | **186** | 4 | 0 | 0 | 191 |
| | 20-30% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 383-573) | 0 | 4 | **185** | 2 | 0 | 191 |
| | 30-50% mwyaf difreintiedig (graddfeydd 574-955) | 0 | 0 | 2 | **376** | 4 | 382 |
| | 50% lleiaf difreintiedig (graddfeydd 956-1,909) | 0 | 0 | 0 | 4 | **950** | 954 |
| | Cyfanswm (graddfeydd 1-1,909) | 191 | 191 | 191 | 382 | 954 | **1,909** |

*MALIC – Parth Incwm*

Mae'r effaith ar y Parth Incwm yn fwy amlwg, fel a ganlyn:

- O'r 1909 o ACEHI, mae gan y mwyafrif ohonynt (98%) raddfa gwahanol
- Serch hynny, newid bach sydd i'r rhan fwyaf ohonynt:
    - bydd 21% ohonynt yn aros o fewn 5 lle (o 1909)
    - bydd 35% ohonynt yn aros o fewn 10 lle
    - bydd 60% ohonynt yn aros o fewn 20 lle
- Mae ychydig yn fwy na 10% o ACEHI wedi symud rhwng degraddau MALIC
- Mae un ACEHI wedi symud mwy nag un degradd

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â ystadegau.cynhwysiant@llyw.cymru